# **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
# **9 GORFFENNAF 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth 9 Gorffennaf 2019 yng Nghanolfan Chwaraeon Dŵr Cambrian Aquatics, Rhodfa Gwepra, Cei Connah.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sean Bibby, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Paul Johnson a Tudor Jones

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Ted Palmer (ar ran Martin White)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Brian Lloyd, Mike Reece, Ralph Small, Andy Williams a David Wisinger

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Cymunedol)

**Cyfarwyddwyr Cambrian Aquatics:** Sarah Breeze, Steve Carney, Mike Lewis a Simon Morgan

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

## **17. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Datganodd y Cyng. Andy Dunbobbin gysylltiad personol ag eitem 3 ar y rhaglen gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Cei Connah sy'n darparu cymorth ariannol i Cambrian Aquatics.

Datganodd y Cyng. Tudor Jones gysylltiad personol ag eitem 3 hefyd.

Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 - Ystyried gwahardd y wasg a'r cyhoedd

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## **18. PWLL NOFIO CEI CONNAH: CYNLLUN BUSNES STRATEGOL CAMBRIAN AQUATICS 2018/21**

Diolchodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i Cambrian Aquatics am wahodd y Pwyllgor i gynnal eu cyfarfod yn y ganolfan a gofynnodd i'r pedwar cyfarwyddwr gyflwyno eu hunain.

Yn dilyn y cyflwyniadau darparodd y cyfarwyddwyr gyflwyniad manwl a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar y canlynol:-

- Crynodeb o’r Ail Flwyddyn
- Targedau Mai 2019 (cynlluniau gweithredu i droi’r holl feysydd yn ‘wyrdd’)
- Manteision cymunedol a chymdeithasol
- Crynodeb o 2018/19
- Amcanion Blwyddyn 3
- Crynodeb

Diolchodd y Prif Swyddog i’r cyfarwyddwyr am eu cyflwyniad a llongyfarch y tîm am eu llwyddiannau hyd yma. Amlinellodd y cymorth a ddarperir gan y Cyngor ond soniodd hefyd am y pryderon ynghylch y risgiau i'r fenter. Dywedodd y bydd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Bwrdd i ddeall a thrafod y meysydd sy’n peri pryder a dywedodd y dylai’r tîm fod yn falch iawn o’u gwaith a’r hyn maent wedi'i gyflawni, yn enwedig y cynnydd mewn cyfranogwyr ‘dysgu nofio’.

Cytunodd y Cadeirydd gan ddweud eu bod wedi cael dechrau digon anodd ond bod y rhaglen ‘dysgu nofio’ yn allweddol i’r busnes. Soniodd y Rheolwr Cyllid am y rhaglen ‘dysgu nofio’ a dywedodd ei bod yn falch iawn bod y Bwrdd yn edrych ar ehangu’r rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â nofio, a fydd yn cynorthwyo i greu refeniw parhaus.

Bu i’r aelodau longyfarch y Bwrdd am ei lwyddiannau. Dywedodd y Cyng. Andy Dunbobbin ei fod yn fodlon cwrdd â’r Bwrdd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Hamdden Cyngor Tref Cei Connah i drafod prosiectau newydd. Canmolodd y Cynghr. Sean Bibby a Janet Axworthy y Bwrdd a chytuno i roi gwybod i'w Cynghorau Tref/Cymuned am y gwaith sy'n mynd rhagddo er mwyn, gobeithio, darparu cymorth ariannol yn y dyfodol.

Soniodd y Cyng. Tudor Jones am gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i leihau’r Grant Nofio Am Ddim a gofynnodd sut mae Cambrian Aquatics yn paratoi ar gyfer gwneud iawn am y gostyngiad hwn. Eglurodd y cyfarwyddwyr eu bod wedi cynnal cyfarfodydd i drafod eu pryderon ynghylch effaith y gostyngiad hwn, yn enwedig ar gyfer pobl dros 60 oed, ac maent yn cytuno bod modd symud ymlaen gyda dull ar y cyd ar draws pyllau nofio Sir y Fflint.

Yn ystod y drafodaeth ymatebodd y cyfarwyddwyr i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau ynglŷn â llif arian a chronfeydd wrth gefn, y costau arfaethedig a’r amserlen ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweiriadau, ac aelodaeth y Bwrdd. Soniodd y Prif Swyddog am sgiliau amrywiol yr Aelodau Bwrdd.

Bu i’r Pwyllgor darfod y dewisiadau o ran grantiau a Chronfa Mantais Gymunedol Wheelabrator Parc Adfer. Mae cyfle i wneud cais am gymorth grant gan fod hyn wedi’i dargedu yn ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy.

Diolchodd y Cadeirydd i’r swyddogion a’r cyfarwyddwyr am ymateb i gwestiynau a sylwadau’r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi a chymeradwyo’r Cynllun Busnes gyda Cambrian Aquatics.

## 19. <u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>

Nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 pm a daeth i ben am 6.55 pm)

....................................................

**Y Cadeirydd**